GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

16 Gorffennaf 2010

Teulu yn cyflwyno sganiwr er cof am glaf

Mae teulu cyn-glaf yn ymweld ag Ysbyty Maelor Wrecsam yr wythnos hon i gyflwyno sganiwr uwchsain i'r Uned Asesu Llawfeddygol.

Derbyniodd Eirwen Chesters ofal ar y Ward yn gynnar yn 2009 ond yn drist iawn bu farw yn fuan wedyn.

Eglurodd yr Uwch Brif Nyrs Awi Hughes:

"Roedd Mrs Chesters yn wraig hyfryd, a thra roedd hi efo ni gofynnodd i mi a oedd yna unrhyw beth yr hoffem ni ei gael ar yr uned. Dywedais wrthi ein bod wedi bod yn aros am sganiwr uwchsain am nifer o flynyddoedd, ond bod y rhain yn offer drud iawn.

"Fodd bynnag cyn iddi farw roedd ei phartner Roy Duggan wedi addo wrthi y byddai'n codi'r arian i brynu sganiwr ar gyfer yr Uned. Fe gynhaliodd nifer o wahanol nosweithiau elusennol a chasglu o ddrws i ddrws gan godi dros £12,000.

"Rydym hefyd wedi cael rhodd o tua £22,000 gan Gyfeillion Ysbyty Wrecsam i helpu prynu'r sganiwr ac felly rydym wedi gallu cael peiriant ffantastig o'r radd flaenaf.

“Cyrhaeddodd yr wythnos diwethaf ac mae ein meddygon ymgynghorol yn cael hyfforddiant ar y sganiwr erbyn hyn. Gan ein bod yn gallu sganio cleifion yma ar yr uned, yn hytrach na threfnu apwyntiad yn y brif adran belydr-x, rydym yn cael y canlyniadau yn gynt. Bydd hyn yn ein helpu i ddiystyru nifer o gyflyrau pan rydym yn ceisio gwneud diagnosis ac yn golygu y bydd cleifion yn gallu cael triniaeth yn gyflymach.

“ Hoffwn ddiolch i Mr Duggan am yr holl waith caled yn codi'r arian yma, yn ogystal â phawb yn Trevor, Llangollen a'r cylch am eu haelioni yn cefnogi ei ymdrechion.”

DIWEDD

Llun

Mae’r llun yn dangos (chwith i dde) Nyrs Staff Gareth Arndt ac Uwch Brif Nyrs Awi Hughes yn derbyn y sganiwr gan Richard Williams, Trysorydd Cyfeillion Ysbyty Wrecsam, Mrs Jackie Wooding (merch Mrs Chesters) a Mr Roy Duggan

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**

16 July 2010

Family hands over scanner in memory of patient

The family of a former patient visited Wrexham Maelor Hospital this week to hand over an ultrasound scanner to the Surgical Assessment Unit.

Eirwen Chesters was cared for on the Ward in early 2009 but sadly died shortly afterwards.

Senior Sister Awi Hughes explained:

"Mrs Chesters was a lovely lady, and while she was with us she asked me if there was anything we would like on the unit. I told her that we had been wanting an ultrasound scanner for a number of years, but that these were very expensive bits of equipment.

"However before she died her partner Roy Duggan promised her that he would raise the money to buy a scanner for the Unit. He did this through a number of different charity evenings as well as door to door collections, and raised over £12,000.

"We have also had a donation of around £22,000 from the Wrexham Hospital League of Friends to support the purchase of the scanner and so we have been able to buy a fantastic, top-of-the-range machine.

"It arrived last week and our consultants are now getting training on the scanner. Because we can scan patients up on the unit, rather than having to arrange an appointment slot in the main x-ray department, we get the results more quickly. This will help us to rule out a number of conditions when we are trying to make a diagnosis and means we can speed up treatment for patients.

“I would like to thank Mr Duggan for all his hard work in raising this money, as well as everyone in Trevor, Llangollen and the surrounding areas who gave such generous support to his efforts.”

ENDS

Caption info

The photograph shows (left to right) Staff Nurse Gareth Arndt and Senior Sister Awi Hughes receiving the scanner from Richard Williams, the Treasurer of the League of Friends, Mrs Jackie Wooding (the daughter of Mrs Chesters) and Mr Roy Duggan

For further information please contact:

Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**
Mrs Dawn Davies **01745 534495**